


# CYNLLUN CYMATHU RHIENI



Dros y misoedd diwethaf, mae athrawon Unedau Iaith Gwynedd, dan arweiniad Gwenan Elis Jones o Uned Iaith Maesincla, mewn cydweithrediad â hunaniaith, wedi datblygu adnoddau newydd gogyfer â'u defnyddio wrth gynnal y cynllun 'Byw yng Nghymru' gyda rhieni'r hwyrdyfodiaid yn yr Unedau Iaith.

mewn ffordd hwyliog ac anffurfiol i rieni mewn teuluoedd sydd wedi mudo yn ddiweddar i Wynedd.

Nod y cynllun yw ennyn agwedd iach tuag at yr iaith ymhlith mewnfydwyr yn y gobaith y caiff y plant gefnogaeth wirioneddol ar yr aelwyd i feistrolï eu hiaith newydd.

Yn dilyn cael eu defnyddio yn y sesiynau wrth gyflwyno'r patrymau iaith newydd i'r rhieni, bwriadwyd i'r adnoddau gael eu defnyddio gan y teulu yn y cartref er mwyn ymarfer a rhoi cefnogaeth i'r plentyn.

Yn ogystal â rhoi blas i'r rhieni o'r iaith Gymraeg, mae'r cynllun hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r

rhieni am fyw yng Nghymru, gan gyflwyno eitemau difyr ynglŷn â bwydydd traddodiadol Cymru, ystyr enwau llefydd a hanes lleol, diwydiannau sydd wedi siapio'r dirwedd yn lleol yn ogystal â sôn am ddiwylliant Cymru.

Mae adborth y rhieni i'r cynllun wedi bod yn rhagorol, gyda'r rhieni yn ddiwahân yn nodi cymaint yr oeddynt wedi mwynhau sesiynau bywiog athrawon yr Unedau Iaith, faint yr oeddynt wedi ei ddysgu am yr iaith Gymraeg a'u hardal newydd, gan ddweud cymaint o gymorth fu hynny iddyn nhw wrth ddod yn rhan o fywyd cymunedol yn eu hardaloedd newydd.

Meddai un rhiant oedd yn rhan o'r cynllun

*"Great presentations and great resources which we played at home as a family. The course has opened my eyes to how to pronounce words, places etc and I can now understand more of what I see and hear around me & on tv."*

Noddwyd y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r adnoddau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, trwy arian grant hunaniaith, partneriaeth sydd yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Ifan Prys



BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

## GWASANAETH LLYFRGELL YSGOLION GWYNEDD

Gall Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd eich cefnogi fel athrawon dosbarth gyda lluo o adnoddau cyfredol ac arbennig wedi eu dewis i ateb eich gofynion chi.

Mae'r rhain yn cynnwys:  
**Pecynnau Adnoddau Athrawon** - i gyd-fynd â'ch thema dysgu a all gynnwys meddalwedd cyfrifiadurol, DVDs, Sachau Stori ayyb.

**Llyfrau Darllen Grŵp** - setiau chwe llyfr o'r un teitl.

**Bocsys Awduron** - gwybodaeth a llyfrau awduron poblogaidd

**Deunyddiau Clyweled** megis DVDs/fideos, CDRomau, E Big Books a rhai o'r gyfres BBC Whiteboard Active.

**Sachau Stori** - Adnodd arbennig o addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

**Bocsys SIY/EAL** - Mae'r adnoddau hyn wedi eu creu ar gyfer disgyblion B5 a 6 sydd yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.


**Bocsys Arteffactau** - yn cynnwys atgynhyrchiadau o arteffactau yn ogystal ag adnoddau gwledol megis llyfrau, lluniau neu fideo/DVD.

**Bag Books** - adnoddau storiol aml synhwyrol ar gyfer plant ag anawsterau ac anabledau dysgu.

**Help Llaw Mewn Llyfr** - Casgliad o lyfrau stori yn delio gyda sefyllfaoedd arbennig i blant, megis materion ymddygiad, materion emosïynol e.e. unigrwydd, poeni, a sefyllfaoedd personol a theuluoedd megis galar a phrofedigaeth, maethu, tor-priodas, ayb.

## Prosiect Llyfrau Graffig

Ariannwyd y prosiect Llyfr Graffeg fel rhan o ymgyrch **Darllen Miliwn o Eirau Gyda'n Gilydd** yng Nghymru gan Sgiliau Sylfaenol Cymru. Gwahoddwyd 10 o fechgyn ifanc o Flwyddyn 5 Ysgol Trefertnyr, Maenofferen a Cymerau i gymryd rhan yn y prosiect er mwyn eu hannog a'u hysbrydoli i gymryd diddordeb mewn llyfrau yn gyffredinol. Eu tasg oedd creu stori stribed ar y thema bwlio. Cydweithwyd ag Alun Ceri Jones, cyhoeddwr Dalen (Llyfrau), Morgan Tomos, cartwnydd, ac Eleri Davies, Cydlynnydd y prosiect yng Ngwynedd. Yn sgil y prosiect, daeth yn amlwg fod y bechgyn nid yn unig wedi mwynhau, ond wedi magu hyder ynddynt eu hunain ac yn eu gallu i wau geiriau a lluniau efo'i gilydd. Llwyddwyd i greu llyfrau graffeg ar y teitlau - **Seibr Storm, Legio, a Troi'r Foch**.



Sut i gysylltu:-  
Archebu Adnoddau trwy e-bost - gll@gwynedd.gov.uk  
Archebu Adnoddau ar-lein - www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell > gwasanaeth llyfrgell ysgolion